

## Cofnodion Pwyllgor 17.11.2020 - drwy 'Zoom'

### Yn Bresennol

Cen Llwyd	Alun Davies (Yn y gadair)
Gareth Lloyd	Gareth Evans
Bryan Davies	Bleddyn Davies
Pît Dafis	Ann Harris
Mary Davies	Aled Dafis

### Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

### Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion mis Hydref yn gywir ar ôl nodi fod y Cyng Mary Davies hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor.

### Datgelu Buddiannau

Wnaeth y Cynghorwyr Gareth Lloyd a Mary Davies ddatgan diddordeb ynglŷn â chais cymorth ariannol Cymdeithas Henoed Talgarreg.

### Materion yn Codi o'r Cofnodion

Tai/Cartrefu ar gyfer pob lleol Wnaeth Keith Henson, Hwylusydd Tai Barcud fynychu'r cyfarfod rhithiol i roi cyflwyniad i'r Cyngor am ei swydd ynghyd a'r cynlluniau sydd eisoes ar waith i gynyddu'r stoc o dai cymdeithasol. Wnaeth bwysleisio pwysigrwydd fod pobl leol yn cofrestru am dai ac mae angen hyrwyddo hyn o fewn ein cymunedau. Mi wnaeth Keith adrodd ei fod yn cynnal arolwg yn ardaloedd Talybont a Llandysul ar hyn o bryd er mwyn sefydlu'r galw am dai cymdeithasol. Mae'n fwriad ganddo i wneud hyn ar draws y Sir. Mae Tai Barcud yn gyfuniad o gymdeithasau tai Tai Ceredigion a Thai Canolbarth Cymru. Dyma'r cyflwyniad llawn. Mi fydd y clerc yn danfon manylion am gyfarfod 'Undod'sy'n cael ei gynnal drwy'r cyfryngau cymdeithasol nos yfory a fydd yn son am yr her o ail dai.



Draft Local Lettings  
Policy - Llandysilio Gog



Generic PPT - KH  
Llandyslio Gogo.pptx

## **Gohebiaeth**

CSC - Praesept Derbyniwyd taliad olaf y praesept am y flwyddyn gyfredol - £3291.00.

Llywodraeth Cymru Cyhoeddwyd Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar yr 20 Hydref 2020. Dyma'r ddolen i'r Strategaeth.

<https://llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru>

Cynnal y Cardi Mae Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi sy'n gweithredu'r cynllun LEADER yng Ngheredigion yn chwilio am syniadau gan unigolion, grwpiau, busnesau a sefydliadau. Mi fydd y clerics yn danfon manylion llawn y cais at y Cynghorwyr.

Tystion Jehofa Dosbarthwyd copi o'r Cylchgrawn y Tŵr Gwyllo yn unol â chais Chris Felton sy'n byw yng Nghaerwedros.

Cymdeithas Henoed Talgarreg Derbyniwyd cais am gymorth ariannol tuag at gynnal gweithgareddau'r gymdeithas. Cytunwyd i wneud cyfraniad o £100.00.

## **Taliadau**

Cymdeithas Henoed Talgarreg £100.00

## **Unrhyw Fater Arall**

Arwyddion gwaith ffyrdd Wnaeth y Cyng Mary Davies adrodd fod arwyddion gwaith ffyrdd wedi eu gadael yn y cloddiau ger Pisgah, Sgwâr Blaenglowon a Sgwâr Felin, Talgarreg. Maent wedi ei gadael yno wedi i waith atgyweirio tyllau yn y ffyrdd gael ei wneud yn y lleoliadau yma.